Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 24/25

Cymdeithas y Cymod yng Nghymru

Crynodeb o'r Flwyddyn

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae ein helusen wedi parhau â'i hymrwymiad i hyrwyddo heddwch, cymod, empathi a chydweithrediad cymdeithasol.

Mae ein gwaith wedi cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lledled Cymru ac wedi cyfrannu at gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch gwerth heddwch, datrys gwrthdaro, a chydweithredu rhyngwladol.

Amcanion a Gweithgareddau

Pwrpas craidd yr elusen yw datblygu ac annog diwylliant o heddwch drwy addysg, digwyddiadau a chefnogaeth i unigolion ac sefydliadau sy'n gweithio dros heddwch. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd gweithdai, darlithoedd, a rhaglenni addysgol arlein ac mewn canolfannau cymunedol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cydymffurfio â'r amcanion elusennol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Cyflawniadau Allweddol

1. Hyrwyddo gweithgaredd prosiect - Heddwch ar Waith a gychwynodd yn 2023 gyda grant sylweddol gan y Joseph Rowntree Charitable Trust
2. Cefnogi gwylnosau cymunedol
3. Codi ymwybyddiaeth am faterion byd-eang
4. Cydlynu gweithgareddau y Babell Heddwch yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
6. Cofio Epynt
7. Cydlynu a chyfrannu at Gynhadledd Canghennau Ewropeaidd Cymdeithas y Cymod yng Nghaerdydd.
8. Manteisio ar gyfleoedd i fynegi safbwynt y Gymdeithas ar y teledu a'r radio.
9. Cyhoeddi erthyglau perthnasol.
10. Ymateb i adroddiad "Cymru fel Cenedl Heddwch" yr Academi Heddwch.
11. Datblygu gwefan newydd.
12. Cefnogi ymgyrch y Pabi Gwyn yng Nghymru

Adroddiad Ariannol

Mae'r elusen wedi rheoli ei chyllid yn ofalus, gan sicrhau bod gwariant yn cael ei gyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau craidd. Cafwyd incwm o roddion, grantiau, a gweithgarwch codi arian cymunedol, gyda'r holl wariant yn cael ei reoli gan y trysorydd a'i fonitro'n rheolaidd gan yr

ymddiriedolwyr. Mae’r elusen wedi cadw at ei pholisi ariannol ac nid oes unrhyw risg ariannol sylweddol wedi’i nodi.

Craffu allanol y cyfrifon

Caiff ein cyfrifon eu harchwilio a'u gwirio'n flynyddol gan Mr Dewi Morgan, CPFA. Mae Mr Morgan yn allanol i'n sefydliad ac ddim yn aelod.

Llywodraethu a Rheolaeth

Mae’r ymddiriedolwyr wedi cwrdd yn rheolaidd ar y cyd gyda Phwyllgor Gwaith y Gymdeithas i adolygu perfformiad yr elusen, monitro risgiau, a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu.

Cafodd y cyfrifon ac adroddiadau blynyddol y swyddogion eu cyflwyno I aelodau y Gymdeithas yng nghyfarfod y Cyngor, ein Cyfarfod Blynyddol arlein ar 19 Mehefin 2025.

Cymdeithas y Cymod yng Nghymru
Mantolen 2024-2025

Taliadau	2024-2025	*2023-2024*	**Derbyniadau**	2024-2025	*2023-2024*
Costau’r swyddogion	5236.00	*1928.00*	Aelodaeth	3398.00	*1856.00*
Gwefan/Cyfryngau Cymdeithasol	670.00	*266.80*	Eglwysi a sefydliadau	385.00	*200.00*
Lien, argraffu	759.88	*672.70*	Rhoddion	529.40	*2900.00*
Tanysgrifiadau ac aelodaeth	705.00	*95.00*	Nwyddau	847.00	*493.17*
Cynhadleddau/cyfarfodydd	168.00	*79.91*	Amrwyiol	3334.58	*751.97*
Cymod a chludiant	933.54	*192.23*	Er cof	200.00	*0.00*
Amrywiol (Marchnata)	526.60	*150.00*	Eisteddfod	2880.00	*1290.00*
Costau banc/PayPal	81.91	*76.40*	Pabis gwyn	277.23	*496.25*
Eisteddfod	3298.60	*2912.00*	Heddwch ar Waith	29062.00	*11812.00*
Nwyddau	601.40	*1166.50*			
Heddwch ar Waith	29347.77	*14104.43*			
Cyfanswm y taliadau	42328.70	*21643.97*	Cyfanswm y derbyniadau	40913.21	*19799.39*
Gwahaniaeth rhwng D a T	-1415.49				
	40913.21			40913.21	

Cyfrifon

Yn y banc 31/3/24	15589.12	Yn y banc 31/3/25	14173.63
Gwahaniaeth rhwng D & T	-1415.49		
	14173.63		14173.63

Archwilwyd a chafwyd yn gywir:

Dewi Morgan CPFA
31/05/2025

Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn Nesaf

- Parhau gyda’r gwaith o godi ymwybyddiaeth o heddwch a chymod.
- Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o heddwch a chymod.
- Adnabod a manteisio ar pob cyfle I hyrwyddo heddwch a chymod yn y wasg
- Cynnal digwyddiadau byw ac ar-lein
- Cefnogi mudiadau heddwch eraill
- Parhau i gefnogi a chydweithio gyda phrosiect Heddwch ar Waith

Diolch a Chydnabyddiaeth

Diolchwn yn ddiffuant i’n cefnogwyr, gwirfoddolwyr am eu cyfraniadau gwerthfawr. Heb eu hymroddiad, ni fyddai’r elusen yn gallu cyflawni ei hamcanion. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall o hyrwyddo heddwch.

Ar ran yr ymddiriedolwyr,

Llofnodwyd: Robat Idris

Cadeirydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru

Dyddiad: 28/01/2026